

2017 Rhif 998 (Cy. 256)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefgarn i Fanorowen, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017

Gwnaed 12 Hydref 2017

Yn dod i rym 20 Hydref 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Hydref 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefgarn i Fanorowen, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

- unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a
- unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r luoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 20 Hydref 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun rhwng Trefgarn a Manorowen yn Sir Benfro;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r luoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

Cymhwyso

7.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Hydref 2017

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Drefgarn hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r de o Gas-blaidd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r gogledd o Gas-blaidd hyd at bwynt 233 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4331.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 217 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r B4331 hyd at bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Manorowen, Abergwaun.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r de o Gas-blaidd hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 40 mya parhaol i'r gogledd o Gas-blaidd.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 233 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4331 hyd at bwynt 217 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Manorowen, Abergwaun hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.